



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Mai 28 2019 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday May 28 2019 at 7pm.

Presennol/Present: Gordon Warren, Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Mike Roberts, Gerry Belanger, Julie Ann Hughes, Gina Jones, Kevin Ellis, Carys Hughes, Richard Jones, Liz Wood

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Aelodau o'r cyhoedd / *Members of the public.*

Ymddiheuriadau/Apologies: John Byst, Andy Hughes, Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/Welcome and Apologies

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Myrddin Owens - Adroddiad Cyllid/Finance Report (cwyn i'r Ombwdsmon/complaint to the Ombudsman)

Julie Ann Hughes – Cais Ysgol Syr Thomas Jones am arian/*Syr Thomas Jones School request for funding*

Richard Jones - Cais Ysgol Syr Thomas Jones am arian/*Syr Thomas Jones School request for funding*

Mike Roberts – Cais Geomon am arian/*Geomon request for funding*

3 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd/Election of Chair and Vice Chair

Nododd Gordon Warren nad oedd yn bwriadu parhau yn Gadeirydd y Cyngor. Diolchwyd iddo am ei ymdrechion dros y flwyddyn diwethaf. Diolchodd yntau i'r clerch am ei chefnogaeth.

Enwebwyd Liz Wood yn Gadeirydd, cynnig Gordon Warren, eilio Gareth Roberts. Pawb yn gytun.

Enwebwyd Kevin Ellis yn Is-gadeirydd, cynnig Liz Wood, eilio Carys Hughes. Ni fu gwrthwynebiad.

Gordon Warren stated that he didn't intend to continue as Chair of the Council. He was thanked for his efforts during the last year. He in turn thanked the clerk for her support.

Liz Wood was nominated as Chair, proposed by Gordon Warren, seconded by Gareth Roberts. Everyone in agreement.

Kevin Ellis was nominated as vice-chair, proposed by Liz Wood, seconded by Carys Hughes. No objections.

4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.

The minutes were proposed a true record. Proposed Myrddin Owens seconded Meg Roberts

5 Materion yn codi / Matters Arising

5.1 Materion Priffyrdd/Highways Matters

Cafwyd ebost gan Huw Percy yn crynhoi'r sefyllfa bresennol ynglyn a chyflwr lonydd yr ardal a gwaith cynnal yn gyffredinol. Nodwyd bod peth gwaith paentio llinellau heb ei gwblhau yn y dref, nid oes llinellau wedi eu paentio ger y gylchfan, ac mae disgwyl bron i ddwy flynedd am newidiadau i farciau ffordd ger Spar ac yn Stryd Salem. Cyng Richard Jones i wneud ymholiadau pellach, deallwyd bod y mater yn nwylo'r adran gynllunio. Mae rhai o ffyrdd y dref yn beryglus ac angen sylw brys. Cytuno cysylltu a CSYM yn nodi pryderon yr aelodau, ac hefyd yn nodi y byddai bai ar CSYM petai damwain ac achos cyfreithiol. Cynnig Myrddin Owens, eilio Carys Hughes.

An e-mail was received from Huw Percy summarising the current situation in relation to the condition of the area's roads and maintenance work in general. It was noted that there was some road marking painting work still outstanding in the town, no lines have been painted by the roundabout and there has been a near two year wait for changes to road markings near Spar and Salem Street. Cllr Richard Jones to make further enquiries, it was understood that the matter was in the hands of the planning department. Some of the town's roads are very dangerous and need urgent attention. It was agreed to contact the IACC to express the members' concerns and also to note the IACC's legal liability in the event of an accident. Proposed Myrddin Owens, seconded Carys Hughes.

5.2 Gwasanaeth Bws/Bus Service

Cafwyd gadarnhad gan y swyddog trafniadaeth o wasanaeth bws sydd yn cael ei dorri a'r rhesymeg am ddod ag o i ben. Gofynnwyd os oedd gwasanaeth arall y byddai yn cael pobl o Amlwch i Langefni erbyn 8.30-9 o'r gloch y bore. Mae nifer o bobl yn chwilio am waith yn barod, gyda nifer mwy yn colli eu swyddi cyn diwedd y flwyddyn.

Nododd y cadeirydd bod angen i CSYM esbonio eu rhesymeg, mae annog pobl i chwilio am waith a diddymu gwasanaeth bws yn groes i'w gilydd. Cynnigwyd bod y cyngor yn cysylltu a CSYM yn tanlinellu'r ffaith bod dros cant o bobl yn colli eu swyddi yn Rehau cyn diwedd y flwyddyn, ac mai ychydig iawn o gyfleon gwaith sydd yn Amlwch. Byddai gofyn i CSYM ail ystyried diddymu'r gwasanaeth. Cynnig Myrddin Owens, eilio Kevin Ellis, pawb yn cytuno.

Confirmation was received from the transport officer as to which bus service would be cut and the reasons for doing so. It was asked whether another service would be available to take Amlwch residents to Llangefni between 8.30 to 9am. A number of people are already looking for work with more and more losing their jobs before the end of the year.

The chair noted that IACC needed to explain its decision as encouraging people to look for work and ceasing the bus service was a contradictory action. It was agreed that the council contacts IACC highlighting the fact that over 100 people will lose their jobs in Rehau before the end of the year and that there are very few opportunities for work in Amlwch. There was a need for IACC to re-consider its decision to stop the service. Proposed Myrddin Owens, seconded Kevin Ellis, everyone in agreement.

5.3 £100k

Nid oes unrhyw wybodaeth pellach. Fe ofynnodd Kevin Ellis os mai am datganiad a wnaed mewn cyfarfod cyhoeddus a sonir. Cadarnhaodd mai'r hyn a ddywedwyd oedd bod Caru Amlwch wedi dechrau ar y cais grant a bod y broses wedi ei drosglwyddo i'r cyngor sydd wedi llwyddo i ddiogelu £100k tuag at offer chwarae. Roedd Gareth Roberts yn fodlon a'r esboniad ond nododd y byddai eraill o bosib yn cymryd camau pellach.

There was no further information. Kevin Ellis asked whether this related to the comments made in a public meeting. He confirmed that what was said was that Caru Amlwch had started on the application for the grant and that the process had been transferred to the Council who had been successful in securing £100k towards the play equipment. Gareth Roberts was happy with the explanation but noted that others perhaps would take further steps.

5.4 Presenoldeb/Attendance

Fe ofynwyd pam fod Cyng Richard Griffiths wedi ei nodi yn absennol yn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd cynghorwyr sirol yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod ond nad oedd rhaid iddynt fynychu cyfarfodydd y cyngor tref yn rhinwedd eu swydd. Cytuno peidio a chofnodi absenoldeb cynghorwyr sirol yn y dyfodol.

It was asked why Cllr Richard Griffiths had been noted as absent in the last meeting. It was noted that county councillors were invited to attend the meeting but that it wasn't incumbent upon them to attend town council meetings as part of their role. It was agreed to stop recording the absence of county councillors in future.

5.5 Ombwdsmon/Ombudsman

Cadarnhawyd byddai diweddariad i'w gynnwys yn adroddiad y pwyllgor cyllid.

It was confirmed that an update would be included in the report from the finance committee.

6 Pwyllgorau Allannol / External Meetings

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon. dosbarthwyd ymateb y Bartneriaeth i Gynllun Adfywio Economaidd Gogledd Mon er gwybodaeth.

Fe ofynodd Carys Hughes os oes posib cael adroddiadau a gwybodaeth o'r fath cyn y cyfarfod er mwyn gallu eu darllen ymlaen llaw. Cyfrifoldeb yr aelodau yw hyn.

Fe ofynnwyd os oedd Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd wedi cwrdd yn ddiweddar, ac os oedd unrhyw ddiweddariad am gynlluniau CSYM i foderneiddio ysgolion y dalgylch. Nodwyd pwysigrwydd bod aelodau yn adrodd yn ol i'r Cyngor gan eu bod yn mynychu cyfarfodydd i gynrychioli'r Cyngor. Fe ofynnwyd os fydd unrhyw newidiadau staffio yn yr ysgol, deallwyd bydd rhai newidiadau ond na fydd yr athrawon yn cael eu heffeithio. Cadarnhawyd na fyddai hyn yn effeithio ar yr ysgol feithrin.

Myrddin Owens reported following a meeting of the North Anglesey Council Partnership and the Partnership's response to the North Anglesey Economic Regeneration Scheme was distributed for information.

Carys Hughes asked if it was possible to get reports and information such as these before the meeting in order to be able to read them before-hand. This is the members' responsibility.

A question was asked if the Primary School Governing Body had met recently and if there was any update on the IACC's plans to modernise the area's schools. The importance of members reporting back to the Council was highlighted as they attend meetings as representatives of the Council. A question was asked as to whether there will be any staffing changes in the school. It was understood that there will be some changes but that the teaching staff would not be affected. It was confirmed that this would not affect the Nursery School.

7 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod diwethaf gan Myrddin Owens. Nododd bod cyfansoddiadau pob pwyllgor wedi eu hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod ac fe'u cymeradwywyd. Cafwyd ddiweddariad am y cwynion i'r ombwdsmon, bu i'r clerwr adael yr ystafell tra bu trafodaeth.

Fel yr arfer, mae rhestr o daliadau a gymeradwywyd ar gael i'r aelodau drwy gysylltu a'r clerwr. Cafwyd wybod bod yr archwiliad mewnol i'w gwblhau cyn diwedd y mis.

Daw dau gais am gefnogaeth ariannol. Bu i Julie Hughes a Richard Jones adael yr ystafell tra bu trafod cais Ysgol Syr Thomas Jones am gefnogaeth i brynnu taflunydd, roedd y pwyllgor cyllid yn argymhell cyfrannu £1500 tuag at y prosiect. Ni fu gwrthwybiad. Bu i'r aelodau ddychwelyd i'r ystafell. Roedd yr ail gais gan GeoMon, bu i Mike Roberts adael yr ystafell tra bu trafodaeth. Mae'r mudiad eisiau cyfraniad tuag at offer TG fydd i'w canfod ym Mhorth Amlwch. Cyfraniad tuag at prosiect mwy fyddai hwn, ac roedd yr aelodau yn cytuno cyfrannu tuag at y prosiect unwaith dau cadarnhad bod gweddill yr arian wedi ei ddiogelu o ffynhonell arall. Bu i Mike Roberts ddychwelyd i'r ystafell. Fe ofynnwyd bod mudiadau sydd yn cael cefnogaeth ariannol yn paratoi adroddiad

ymhen 6-12 mis os yn berthnasol i'r prosiect, ac yn cydnabod cyfraniad y Cyngor.

Rhodddwyd yr hawl i'r clerc symud ymlaen ac archebu argraffwr newydd i'r Swyddfa. Cafwyd grynodedb o'r cytundeb a chostau. Ni fu gwrthwynebiad.

Cafwyd wybod bod y system gwersogi y swyddfa wedi methu. Mae peth arian wedi ei glustnodi yn y gyllideb tuag at boiler newydd. Mae hefyd posib cael peth arian grant tuag at uwchraddio'r system a gwella effeithlonrwydd yr adeilad yn gyffredinol.

Bu i Myrddin Owens adael yr ystafell. Cafwyd wybod bod Cyng. Owens wedi nodi ei bryder am eirfa cofnodion mis Mai mewn perthynas a'r gwyn a wnaed yn ei erbyn. Ymateb yr Ombwdsmon i'r gwyn oedd nad oedd cyfiawnhad i'r gwyn ac nad oedd y gwyn yn haeddu ymchwiliad. Nid oedd cofnodion y Cyngor yn adlewyrchu hyn. Cytuno byddai hyn yn cael ei gofnodi'n glir yng nghofnodion y pwyllgor cyllid a'r Cyngor llawn. Bu i Myrddin Owens ddychwelyd i'r Siambr.

Nodwyd bod cofnodion llawn y pwyllgor cyllid ar gael yn y Swyddfa i'r aelodau hynnu sydd am eu darllen. Nodwyd bod pob pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor llawn yn ei dwrn.

Myrddin Owens gave a summary of the last meeting. It was noted that each committee's terms of reference had been sent to the members before the meeting and they were ratified. An update was received in relation to the complaints to the ombudsman and the clerk left the room whilst they were discussed.

As usual a list of the payments that were authorised is available to the members by contacting the clerk. It was reported that the internal audit would be conducted before the end of the month

Two applications were received for financial assistance. Julie Hughes and Richard Jones left the room whilst the request for support from Syr Thomas Jones school to buy a projector was being discussed. The finance committee were proposing contributing £1500 towards the project. No objections. The member returned to the room. The second request was from GeoMon and Mike Roberts left the room whilst it was being discussed. The organisation requires a contribution towards I.T equipment to be used in Amlwch Port. This would be a contribution towards a larger project and the members were in agreement to make the contribution to the project once it receives confirmation that the balance of funding had been received from the other source. Mike Roberts returned to the room. It was requested that organisations who receive financial support prepare a report 6-12 months down the line on the project and noting the Council's support.

The clerk was given delegated powers to buy a new printer for the Office. A summary of the contract and cost was received. No objections.

It was reported that the office's heating system had broken down. Some money has already been earmarked within the budget for a new boiler. It's also possible that some grant funding may be sourced for upgrading the system and improve the efficiency of the building in general.

Myrddin Owens left the meeting. It was reported that Cllr Owens had noted his concerns in relation to the wording of the May minutes in relation to the complaint made against him. The Ombudsman's response to the complaint was that there was no justification for the complaint and that it didn't merit an investigation. The Council's minutes did not reflect this. It was agreed that this would be minuted clearly in the minutes of the Finance Committee and the full Council. Myrddin Owens returned to the Chamber.

It was noted that the minutes of the Finance Committee were available in the Office for those wishing to read them. It was noted that the committee reports to the full Council in turn.

8 Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannau Agored /Report from the Park and Open Spaces Committee

Cawfyd adroddiad gan Mike Roberts yn dilyn cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Nododd na fyddai'r cofnodion ar gael nes iddyn gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Mae'r gwaith yng nghae chwarae Craig y Don wedi ei ohurio tra bod y gwaith diogelu yn parhau yn yr ardal gan CSYM. Mae cae chwarae Maes Mona yn cael llawer o ddefnydd, diolchwyd i Julie Hughes am

ddiogelu grantiau tuag gosod offer newydd yno. Cafwyd wybod bod ysbwriel yn broblem ym Mharc Natur Trehinion ond bod hyn oherwydd y nifer fawr o bobl sy'n defnyddio'r ardal yn reolaidd yn hytrach nac ambell unigolyn. Bydd y pwyllgor yn monitro'r sefyllfa.

Mike Roberts reported from the last meeting and noted that the minutes would not be available until they had been ratified at the committee's next meeting. The work on the Craig y Don playing field had been postponed until IACC had finished the safety work in the vicinity. The Maes Mona playing field is being well used and Julie Hughes was thanked for securing grants to get new equipment there. It was reported that rubbish was a problem in Trehinion Nature Park but that it was as a result of the large amount of people using the area regularly rather than the odd individual here and there. The committee will monitor the situation.

9 Prosiect Loteri/Lottery Project

Cafwyd ddeall bod y pwyllgor ymgynghorol wedi cytuno ar gynllun ar gyfer y ddau ardal a bod gwahoddiad i dendro wedi ei anfon at y cwmnïau perthnasol. Mae disgwyl cael prisiau ganddynt erbyn Mehefin 14.

It was noted that the consultative committee had agreed upon a scheme for both areas and that an invite to tender had been sent to the relevant companies. It is expected that quotes will be forthcoming by June 14th.

10 Wylfa Newydd

Dim/None

11 Cyfryngau Cymdeithasol/Social Media

Bydd mwy o wybodaeth i'w gael yn y cyfarfod nesaf.
More information will be available at the next meeting.

12 Canolfan Hamdden/Leisure Centre

Cafwyd mwy o wybodaeth ynglyn a'r ganolfan hamdden mae'r swyddog wedi cynnig cwrdd a detholaeth o'r Cyngor i drafod ymhellach. Gofynnwyd i'r clerc drefu cyfarfod ac y byddai cyfle i pob aelod sydd ar gael i fynychu.

Further information was received in relation to the leisure centre. The officer has offered to meet with a delegation from the Council to discuss further. The clerk was asked to arrange a meeting and that it would be open to each member to attend.

13 Marchnad Amlwch Market

Roedd nifer o bryderon ynglyn a'r farchnad wythnosol gyda nifer o gwestiynnau i'w hateb. Cytuno cysylltu a'r adain drwyddedu CSYM i ofyn am gopi o reolau y farchnad ac amodau apel, cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts. Dim gwrthwynebiad bydd cyfle i drafod ymhellach os bydd angen.

There were a number of concerns in relation to the weekly market and a number of questions to be answered. It was agreed to contact the IACC's licensing department to ask for a copy of the market's rules and appeal procedure, proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts. No objections and there will be a further opportunity to discuss if required.

14 Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Mon / North Anglesey Economic Regeneration Plan

Nodwyd bod ymateb Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon i'r ymgynghoriad ar y ddogfen eisioes wedi ei ddsbrthu er gwybodaeth (pwyllgorau allannol), mae angen i'r Cyngor ymateb erbyn diwedd y mis. Cytuno byddai'r Cyngor yn cefnogi ymateb y Bartneriaeth. Roedd yr aelodau wedi eu synnu a'u siomi bod CSYM eu hunain yn amharu ar allu bobl i gymryd mantais ar gyfleon gwaith ar yr ynys drwy dorri gwasanaethau bws o Amlwch i Langefni (cyrraedd Llangefni am 8yb). Gofynnir i'r adran ail-ystyried y newidiadau yma yn enwedig gyda nifer wedi colli eu swyddi yng ngogledd Mon, a mwy yn colli eu swyddi dros y misoedd nesaf.

Cafwyd wybod gan Carys Hughes bod y grwp Siapio Cymunedau yn cynnal eu cyfarfod cyntaf bore lau. Cadarnhaodd y clerc ei bod yn dal i drio trefnu cyfarfod ar y cyd gydag Albert Owen a Rhun ap Iorwerth. Cytuno trefnu cyfarfodydd unigol gyda hwy a chysylltu eto gyda Ken Skates.

It was noted that the response to the North Anglesey Councils Partnership on the document had already been distributed for information (external meetings). The Council needs to respond by the end of the month. It was agreed that the Council would support the Partnership's response. The members were shocked and disappointed that the IACC itself was affecting people's ability to take advantage of job opportunities on the island by cutting the bus service from Amlwch to Llangefni (arriving at Llangefni at 8am). The department will be asked to re-consider this change especially with so many having lost their jobs in the North of Anglesey and more losing their jobs in the coming months.

Carys Hughes stated that the Place Shaping group would be holding its first meeting on Thursday morning. The clerk confirmed that she was still trying to arrange a joint meeting with Albert Owen and Rhun ap Iorwerth. It was agreed to arrange separate meetings with them and to contact Ken Skates again.

15 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol/Questions to the County Councillors

Doedd dim un o'r cynghorwyr sirol yn bresennol erbyn hyn.
None of the county councillors were present by this item.

16 Gohebiaeth / Correspondence

16.1 Moderneiddio Ysgolion / School Modernisation

Cafwyd wybod bod y broses o Adolygu darpariaeth ardal Amlwch wedi ei ohurio am y tro. Gofynnwyd faint o rieni oedd wedi symud eu plant yn barod, a faint oedd y broses a'r gwaith wedi ei gostio i drethdalwyr yr ardal hyd yma.

Information was received that the Review process for the Amlwch area had been postponed for the time being. The question was asked how many parents had already moved their children and how much the work had cost the area's taxpayers up to now.

16.2 Sedd Wag / Vacant Seat

Ni chafwyd llythyr cais cyn y dyddiad cau. Mae disgwyl cadarnhad gan y Swyddfa Etholaeth cyn symud ymlaen i'r cam nesaf o'r broses.

No letters of application were received before the closing date. Guidance awaited from the Electoral Office before moving on to the next stage of the process.

17 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

17.1 Parcio ger yr Ysgol Gynradd/Parking by the Primary School

Daethpwyd at sylw'r Cyngor bod parcio ger yr ysgol yn creu sefyllfa beryglus iawn unwaith eto a bod damwain yn disgwyl digwydd. Cytuno ysgrifennu at yr adran briffyrdd, y cynghorwyr sirol a'r heddlu i godi ymwybyddiaeth o bryderon yr aelodau a gofyn i'r warden barcio ymweld yn rheolaidd gan fod nifer o'r cerbydau yn parcio art linellau melyn dwbwl. Cytuno hefyd anfon copi er gwybodaeth i bennaeth yr ysgol.

It was brought to the Council's attention that the parking by the school was once again causing danger and was an accident in waiting. It was agreed to write to the highways department, the county councillors and the police to raise their awareness of the members' concerns and to ask the traffic warden to visit the area regularly since a number of vehicles were parking on double yellow lines. It was also agreed to send a copy of the letter to the headmaster.

17.2 Cynllun Hyfforddiant/Training Plan

Mae'r pwyllgor safonau am gadarnhad gan pobcyngor o'u cynllun hyfforddiant ar gyfer aelodau a'r clerc. Nodwyd nad oedd gan y Cyngor gynllun penodol ond bod posib i aelodau fynychu hyfforddiant perthnasol a bod cyllideb wedi ei glustnodi ar gyfer y gost. Nododd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu nifer o sesiynnau Un Llais Cymru a'u bod yn ddefnyddiol iawn.

The standards committee is seeking confirmation from each council of their training plans for members and the clerk. It was noted that the Council didn't have a specific plan but that it was possible for members to attend relevant training and that a budget had been earmarked for the cost. The Chair noted that she had attended a number of One Voice Wales sessions and that they

were very useful.

17.3 Ffair Wanwyn/Spring Fete

Nodwyd bod ffair llwyddianus iawn wedi ei gynnal ym Mharc Lon Goch dros benwythnos Sulgwyn. Cytuno ysgrifennu at y trefnwyr i'w llongyfarch.

It was noted that a very successful fair had been held in the Park at Lon Goch over Whitsun weekend. It was agreed to write a letter to the organisers to congratulate them.

17.4 Taliadau i Aelodau/Payments to Members

Esboniwyd bod gan pob aelod yr hawl i daliad o £150 y flwyddyn. Byddai'r taliad yma yn dod o gyllideb y Cyngor (ac felly o'r dreth). Dosbarthwyd ffurflenni i bawb oedd yn bresennol i'w llofnodi os am dynnu nol a pheidio a derbyn y taliad yma.

It was explained that every member had the right to an annual payment of £150. This payment would come out of the Council's budget (and therefore from the precept). Forms were distributed to everyone present for them to sign if they wished to withdraw from not receiving the payment.

17.5 Cofrestr Diddordebau/Register of Interests

Gofynnwyd i'r clerc gadarnhau a chynnwys rhestr yn y cofnodion o'r aelodau hynnu sydd wedi cwblhau'r ffurflenni hyd yma:

The clerk was asked to confirm how many members had completed the forms to date and to include the list in the minutes a list of those members:

**GWYBODAETH GYDA'R ARCHWILIWR MEWNOL
INFORMATION WITH THE INTERNAL AUDITOR**

18 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Mehefin 25 2019 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday June 25 2019 at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50 / *The meeting closed at 20.50*

CET05/2019

Arwyddwyd / Signed:
Liz Wood, Cadeirydd / Chair